Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2013**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(147)v5

**Bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau pan ddaw Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan i ben. Bydd y Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan yn cychwyn am 13.30**

Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (90 munud)**

**4 Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth (Cymru) 2013 (15 munud)**

NDM5293 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2013.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau Canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013
Memorandwm Esboniadol – *Saesneg yn unig*

**5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol – gohiriwyd**

**NDM5259 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol sy’n ymwneud â’r trefniadau archwilio ar gyfer y Byrddau Draenio Mewnol y mae eu hardaloedd yn rhannol oddi fewn i Gymru, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi’i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o’r Bil ewch i:
Bill documents — Local Audit and Accountability Bill [HL] 2013-14 — UK Parliament

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol

**6 Dadl: Y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2013-14 (30 munud)**

**NDM5278 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ddydd Mawrth, 25 Mehefin 2013.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfennau Ategol**
Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13
Papur Ymchwil: Cyllideb Atodol 2013-14 (Mehefin 2013) - Y Gwasanaeth Ymchwil

Addroddiad Y Pwyllgor Cyllid Craffu ar gynnig y Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-2014

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 11 Gorffennaf 2013 i'w hateb ar 16 Gorffennaf 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r cynlluniau sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru i adfywio rhanbarth Canol De Cymru? OAQ(4)1197(FM)

2. Julie James (Gorllewin Abertawe): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â rhoi trefn cofrestru pleidleiswyr unigol ar waith yng Nghymru? OAQ(4)1190(FM)

3. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi? OAQ(4)1195(FM)

4. Aled Roberts (Gogledd Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu ac i esbonio'r ystod o gymwysterau sydd ar gael yng Nghymru? OAQ(4)1191(FM)W

5. Christine Chapman (Cwm Cynon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella mynediad at wasanaethau gofal ataliol i bobl hŷn yng Nghwm Cynon? OAQ(4)1193(FM)

6. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): Pa ganlyniad y mae'r Prif Weinidog yn ei ddisgwyl yn sgîl ymweliadau tramor Gweinidogion? OAQ(4)1194(FM) - TYNNWYD YN ÔL

7. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i amddiffyn pobl hŷn rhag twyllwyr? OAQ(4)1199(FM)

8. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith a gaiff cau canghennau banciau ar gynhwysiant cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru? OAQ(4)1198(FM)

9. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru i amaethyddiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1196(FM)

10. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei flaenoriaethau o ran gofal cymdeithasol? OAQ(4)1204(FM)

11. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru): Pa sicrwydd y gall Llywodraeth Cymru ei roi y bydd arian ar gael i Ambiwlans Awyr Cymru, os bydd angen, i sicrhau parhad y gwasanaeth hanfodol hwn yn y dyfodol? OAQ(4)1192(FM)

12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r llygredd aer a gaiff ei achosi gan allyriadau cerbydau? OAQ(4)1202(FM)

13. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa wiriadau sy'n cael eu cynnal ar wefannau allanol cyn y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu linc iddynt o'i gwefan? OAQ(4)1189(FM)

14. Lynne Neagle (Torfaen): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus yng ngoleuni'r ffaith fod Llywodraeth y DU yn cwtogi ar gyllid i raddau nas gwelwyd erioed o'r blaen? OAQ(4)1203(FM) – TYNNWYD YN ÔL

15. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i fasnach deg? OAQ(4)1200(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Toriad: Dydd Llun 22 Gorffennaf 2013 – Dydd Sul 22 Medi 2013

Dydd Mawrth 24 Medi a dydd Mercher 25 Medi 2013

Dydd Mawrth 1 Hydref a dydd Mercher 2 Hydref 2013

Dydd Mawrth 8 Hydref a dydd Mercher 9 Hydref 2013

*************************************************************************

Dydd Mawrth 24 Medi 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygu'r Sector Bwyd yng Nghymru (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas ag adfer perchnogaeth o dai annedd (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â gwaharddebau i atal niwsans ac atal tarfu ar bersonau, gorchmynion ymddygiad troseddol a’r trothwy cymunedol (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r Fframwaith rheolaethau ariannol cyfalaf yn Rhan 1 Deddf Llywodraeth Leol 2003 i Brif Gwnstabliaid yng Nghymru (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â chyflwyno Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol, Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Hysbysiadau Cau a diwygiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 (15 munud)
- Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) (60 munud)
- Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 25 Medi 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl y Cyfnod Adrodd ar y Bil Cartrefi Symudol (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.
  Ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:
  Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Cartrefi Symudol (Cymru) (5 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

Dydd Mawrth 1 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Eiddo Deallusol (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Teithio Llesol (Cymru) (90 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig: Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Teithio Llesol (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 2 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

Dydd Mawrth 8 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cyllideb Ddrafft 2014-15 (30 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (60 munud)
- Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 9 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)